



UNED 7 – o a mo!

Gramadeg

Rydyn ni wedi edrych ar sawl **arddodiad** (*preposition*) yn y cwrs yma. Yn uned 7 byddwn ni'n edrych ar '**o**', ac hefyd '**mo**' sydd yn cael ei ddefnyddio mewn rhai ardaloedd i gyfleu'r negyddol (*used to convey the negative version of 'o' in some areas of Wales*).

o	mo
ohono i	mohono i
ohonot ti	mohonot di
ohono fe	mohono fe
ohoni hi	mohoni hi
ohonon ni	mohonon ni
ohonoch chi	mohonoch chi
ohonyn nhw	mohonyn nhw

Mo

Gydag enw pendant (*definite noun*) e.e. ci, cath ayb
a ffurfiau cryno berfau (*short form verbs*) e.e. bwytais, aeth
- rydyn ni'n defnyddio **mo** (sef **ddim** + **o**)

Welais i ddim newyddion neithiwr. Welais i mo'r newyddion neithwr.	<i>I didn't see any news last night. I didn't see the news last night.</i>
Orffennais i ddim gwaith ddoe. Orffennais i mo'r gwaith ddoe.	<i>I didn't finish any work yesterday. I didn't finish the work yesterday.</i>

Hefyd...

Mae'n digwydd gydag enwau priod (*proper nouns*) e.e. Gethin, Mari
a rhagenwau (*pronouns*) e.e. ni, chi



Fwytais i mo'r losin.	<i>I didn't eat the sweets.</i>
Thalaist ti mo Tomos.	<i>You didn't pay Tomos.</i>

Y treigladau!

* Cofiwch fod angen treiglo'r ferf gyda'r negyddol! *

Treigladau Llaes gyda **P, T, C** :

Thaliff hi mohonyn nhw.

Chlywais i mo'r larwm.

Pharciais i mo'r car.

Treigladau Meddal gyda **B, D, G, Ll, M, Rh** :

Ddarllenais i mo'r ebost.

Fwytodd e mo'r cinio.

Welais i mohoni hi.

Adolygu

Rydych chi wedi dysgu am yr arddodiaid yma eisoes (*already*).

â (with)	am (about)	ar (on)	at (at)
i (to)	wrth (from)	dros (over / on behalf of)	yn (in / within)

Edrychwch ar eich nodiadau o'r unedau diwethaf, a defnyddiwch y patrymau i lenwi'r bylchau (*fill in the gaps*) ar y dudalen nesaf :



Gêm Arddodiaid

dysgucymraeg.cymru
learnwels.h.cymru





O

Mae pump ohonon ni yn y dosbarth heddiw.

There are five of us in class today.

Mae chwech ohonon ni yn y dosbarth heddiw.

There are six of us in class today.

Mae saith ohonon ni yn y dosbarth heddiw.

There are seven of us in class today.

Mae wyth ohonon ni yn y dosbarth heddiw.

There are eight of us in class today.

Disgrifio

Edrychwch ar y lluniau yma a disgrifiwch nhw – faint o bobl sy yn y lluniau?

Faint o bobl sy yn y llun?

Mae tri o bobl yn y llun.



Mae tair ohoryn nhw.

Edrychwch ar y llun yma ac atebwch y cwestiynau :



Faint sy'n gwisgo melyn?

Faint sy'n cario bag?

Faint sy ar y groesfan sebra?

Faint sy'n fenywod?



Ymarfer Gwrando

Gwrando - 
Dweud eich dweud



Ewch i'r ymarfer 'Gwrando a Gwyllo' ar dudalen
'Canolradd – Uned 7' ar wefan Dysgu Cymraeg.
Gwrandewch a llenwch y bylchau :

Yn y bar carioci:

- A:** Wel? **Beth o't ti'n ei feddwl**?
B: Beth o'n i'n feddwl? Mae dawn gyda ti! Dylet ti fynd ar
Noson Lawen!
A: Rwyt ti'n rhy hael! Diolch yn fawr!

Ar ôl y gêm bêl-droed:

- A:** Wel? **Beth o'ch chi'n feddwl**, dad?
B: Beth o'n i'n feddwl? Colloch chi o ddeg gôl i ddim! Wnest ti
ddim cicio'r bêl!
A: Diolch am ddim byd!

Yn yr oriel:

- A:** Wel – **be wyt ti'n feddwl**?
B: Beth dw i'n feddwl? Maen nhw'n ddiddorol!
Pwy yw'r artist?
A: Fi, wrth gwrs!

Mynegi barn

Beth dych chi'n ei feddwl ohono fe?	Dw i'n meddwl ei fod e'n <u>annifyr</u> .
Beth dych chi'n ei feddwl ohoni hi?	Dw i'n meddwl ei bod hi'n <u>fusneslyd</u> .
Beth dych chi'n ei feddwl ohonyn nhw?	Dw i'n meddwl eu bod nhw'n <u>gostus</u> .



Y negyddol

Cofiwch – mae rhai ardaloedd yn defnyddio 'mo' i gyfleu'r negyddol (*convey the negative*). Mae '**mo**' wedi dod o '**ddim**' + '**o**'

Does dim llaeth ar ôl!
Does dim bisgedi ar ôl.

Yfais i ddim llaeth heddiw.
Fwytais i ddim bisgedi heddiw.

Yfais i mo'r llaeth.
Fwytais i mo'r bisgedi.
Welais i mo'r rhaglen.
Phrynais i mo'r car.

I didn't drink the milk.
I didn't eat the biscuits.
I didn't see the programme.
I didn't buy the car.

Atebwch y rhain. Mae'r un cyntaf wedi ei wneud i chi.

Gest ti'r neges?
Brynaist ti'r llyfr?
Dalaist ti'r biliau?
Glywaist ti'r rhaglen?
Ddarllenaist ti'r erthygl?
Goginiaist ti'r pysgod?
Fwytaist ti'r brechdanau?
Lenwaist ti'r tanc?

Naddo, ches i mo'r neges.

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

Sgwrs

Darllenwch y sgwrs yma ac atebwch y cwestiynau

- A:** Dwedwch beth ddigwyddodd, Mr Jones.
B: Wel, es i ar goll yn y Parc Gwledig.
A: Pam aethoch chi ar goll?
B: Chlywais i mo'r cyfarwyddiadau gan y warden.
A: Pam wnaethoch chi ddim troi wrth yr arwydd?
B: Welais i mo'r arwydd, a welais i mo'r gyffordd chwaith.
A: Pam croesoch chi'r lôn feicio mor gyflym a chodi ofn ar y plant?
B: Welais i mo'r lôn feicio chwaith. Wedyn aeth fy nghar i yn erbyn wal frics.
A: Sut?
B: Welais i mo'r wal pan o'n i'n trio parcio yn y maes parcio.
A: Pam dych chi yn y llys heddiw, felly?
B: Welais i mo'r camera cyflymder wrth yrru bant ar frys!



Darllenwch y sgwrs uchod (above) ac atebwch y cwestiynau

1. Beth oedd y broblem gyda'r **cyfarwyddiadau**? (**nhw**)
2. Beth oedd y broblem gyda'r **gyffordd**? (**hi**)
3. Beth oedd y broblem gyda'r **lôn feicio**? (**hi**)
4. Beth oedd y broblem gyda'r **wal**? (**hi**)
5. Beth oedd y broblem gyda'r camera **cyflymder**? (**fe**)

Welodd e mohono i ddoe.

He didn't see me yesterday.

Welodd e mohonot ti ddoe.

He didn't see you yesterday.

Welodd e mohonon ni ddoe.

He didn't see us yesterday.

Welodd e mohonoch chi ddoe.

He didn't see you yesterday.

Ymarfer – ymatebwch i'r cwestiynau yma, gan ddilyn yr enghraifft gyntaf.

Welodd e ti ddoe?

Welodd e fe ddoe?

Welodd e chi ddoe?

Helpodd e ti ddoe?

Helpodd e hi ddoe?

Helpodd e nhw ddoe?

Ffoniodd e chi ddoe?

Ffoniodd e hi ddoe?

Ffoniodd e nhw ddoe?

Glywodd e ti ddoe?

Glywodd e ni ddoe?

Glywodd e fe ddoe?

Naddo, welodd e mohono i.



Pwy wnaeth beth?

Pwy wnaeth beth? A phwy sy'n gwadu (*who's denying*)?

Cwmni dŵr	athrawon	bechgyn ifainc
'Y Pandas Pinc'	Y Llywodraeth	Tîm Mercedes

Maen nhw'n gwadu dechrau tân ar y mynydd. Pwy ydyn nhw?

Maen nhw'n gwadu newid yr olwyn yn rhy araf. Pwy ydyn nhw?

Maen nhw'n gwadu bydd dŵr brwnt yn broblem iechyd. Pwy ydyn nhw?

Maen nhw'n gwadu bod plant yn gweithio'n llai caled. Pwy ydyn nhw?

Maen nhw'n gwadu bydd etholiad yn fuan. Pwy ydyn nhw?

Maen nhw'n gwadu bydd y grŵp yn dod i ben. Pwy ydyn nhw?



Geirfa

Enwau Benywaidd *Feminine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
cyffordd	junction
dawn/doniau	talent/s

Enwau Gwrywaidd *Masculine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
arwydd/ion	sign/s
cyfarwyddyd/ cyfarwyddiadau	instruction/s

Berfau

Verbs

Cymraeg	Saesneg
cadw sŵn	to be noisy
codi ofn	to frighten
gwadu	to deny

Ansoddeiriau

Adjectives

Cymraeg	Saesneg
annifyr	unpleasant
busneslyd	nosy
costus	expensive
hael	generous
perylus	dangerous